

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL
15 TACHWEDD 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug, ddydd Iau 15 Tachwedd 2018.

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Clive Carver (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr: Haydn Bateman, Bob Connah, Patrick Heesom, Andrew Holgate, Richard Jones, Mike Lowe, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Andy Williams ac Arnold Woolley

DIRPRWYON: Y Cyngorwyr: David Healey (ar ran Paul Cunningham) a Gladys Healey (ar ran Paul Johnson)

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Dave Hughes

CYFRANWYR: Y Cyngorydd Aaron Shotton, Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gyllid; y Cyngorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Reolaeth Corfforaethol ac Asedau; Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Llywodraethu); Rheolwr Cyllid Corfforaethol; Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Rheolwr Cyllid, Cyfrifeg Strategol a Systemau; a Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol

Richard Williams, Prif Weithredwr Sefydliad Cymunedol yng Nghymru (ar gyfer cofnod rhif 64)

HEFYD YN BRESENNOL: Rheolwr Gwasanaethau Democraataidd a Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

52. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cyngorwyr David a Gladys Healey gysylltiad personol gydag eitem rhif 10 ar y rhaglen gan eu bod yn llywodraethwyr yn Ysgol Uwchradd Castell Alun (a nodwyd yn adroddiad y Rhaglen Gyfalaf).

Ar eitem rhif 14 ar y rhaglen, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i'r Aelodau a oedd ar banel grantiau mewnol y Cyngor nad oedd angen iddynt ddatgan cysylltiad.

53. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2018.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

54. OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn nodi cynnydd ar bwyntiau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Heesom at yr adroddiad ar arolwg cynnal a chadw cylchol pont Sir y Fflint a ddosbarthwyd a gofynnodd bod yr Aelodau yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw adroddiadau pellach. Cytunodd y Prif Weithredwr y byddai'n gwirio dyddiad yr arolwg nesaf yn 2019 a gofynnodd bod unrhyw gwestiynau am yr arolwg yn cael eu hanfon at y Prif Swyddog (Tai ac Asedau). Mewn ymateb i sylwadau pellach, cytunodd y byddai adroddiad gyda'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Strategaeth Gyfalaf a'r Cynllun Rheoli Asedau yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad.

55. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol i'w hystyried.

Ar broses y gyllideb, eglurodd y Prif Weithredwr y posibilrwydd y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei gynnal ym mis Ionawr oherwydd bod Setliad Terfynol Llywodraeth Leol yn cael ei gyflwyno ar ôl cyfarfod arferol mis Rhagfyr.

Nododd y Cynghorydd Heesom ei bod yn aneglur sut yr oedd cyfrifoldebau portffolio diwygiedig Prif Swyddog yn cysylltu â'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu perthnasol. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd cylch gorchwyl y Pwyllgorau yn cael eu trefnu o amgylch portffolios swyddogion a bod y swyddogion yn adrodd i sawl Pwyllgor fel bo'r angen.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a
- (b) Bod Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

56. **(i) Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYLLIDEBAU CENEDLAETHOL; GOBLYGIADAU A'R RHAGOLYGN LLEOL DIWEDDARAF**

(ii) CYLLIDEB 2019/20 – CYNIGION CAM 1 - CYLLID CORFFORAETHOL

(iii) CYLLIDEB 2019/20 – CYNIGION CAM 2 – YR HOLL BORTFFOLIOS

(iv) CYLLIDEB 2019/20 – CYNIGION CAM 2 – GWASANAETHAU CORFFORAETHOL

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol gyflwyniad ar y cyd ar broses y gyllideb flynyddol a oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Cyflwyniad a phwrpas yr adroddiadau cyllid
- Cam 1 Cyllideb 2019/20
 - Datrysiadau'r gyllideb gorfforaethol
- Cam 2 Cyllideb 2019/20
 - Crynodeb o gynigion cynllun busnes ar lefel portffolio
 - Cynigion cynllun busnes gwasanaethau corfforaethol
- Y wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa'r gyllideb genedlaethol
- Datganiadau Cyllideb DU y Canghellor
- Rhagolwg y gyllideb leol wedi'i ddiweddarau 2019/20
- Dewisiadau ac opsiynau strategol
 - Crynodeb o sefyllfa gyllidebol Cymru
 - Adborth sesiynau'r gweithlu
 - #CefnogiGalw – sefyllfa ymgyrchu a'r drafodaeth gyhoeddus
 - #EinDiwrnod 20 Tachwedd
- Y camau nesaf a therfynau amser

Roedd Cam 1, a ddaeth i ben, yn cynnwys datrysiadau ar gyfer cyllid corfforaethol a'r costau ar gyfer y sefydliad cyfan fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd rhan o'r cyfanswm o £7.937m yn isafswm o gynnydd Treth y Cyngor o 4.5% ac roedd at ddibenion dangosol ar y cam hwn, net y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor. Roedd gostyngiadau ar gyfer cymorthdaliadau Model Darparu Amgen (ADM) wedi'u cynnwys yng nghynlluniau busnes y sefydliadau hynny. Rhannwyd datganiadau dull ategol ar gyfer pob cynnig, ag eithrio'r gostyngiad yn swyddi rheoli corfforaethol a'r ffrydiau incwm newydd lle bo'r gwaith yn parhau, a'r adolygiad anomaleddau cludiant a oedd yn adlewyrchu canlyniadau penderfyniadau blaenorol ar hawl i gludiant.

Roedd cynigion Cam 2 yn cynnwys penderfyniadau gan bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a oedd wedi adolygu eu portffolios perthnasol. Roedd y pwysau o ran costau, buddsoddiadau ac arbedion effeithlonrwydd yn cael eu hargymhell i'w mabwysiadu heb eithriad. Gydag incwm ac arbedion effeithlonrwydd lleihau'r gweithlu / swyddi wedi'u targedu wedi'u nodi mewn man arall yn y strategaeth, byddai cyfanswm cynigion effeithlonrwydd portffolio'r cynllun busnes yn cyfrannu £0.630m i'r bwlch a ragwelwyd yn y gyllideb. Roedd hyn yn cynnwys cyfanswm o £0.360m ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol a chrynhodd y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog (Llywodraethu) eu meysydd perthnasol.

Eglurwyd y byddai unrhyw adborth gan y Pwyllgor yn cael ei rannu gyda'r Cabinet wrth ystyried mabwysiadu'r cynigion ar gyfer Camau 1 a 2, cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Sir.

Yn ystod diweddariad ar sefyllfa'r gyllideb genedlaethol gan y Prif Weithredwr, atgoffwyd yr Aelodau bod Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol yn nodi gostyngiad o 1% yng Nghyllid Allanol Cyfun (AEF) ar gyfer Sir y Fflint a oedd yn gyfystyr â £1.897m ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau tuag at ddyfarniad cyflog athrawon cenedlaethol a chynnydd mewn galw am brydau ysgol am ddim.

Ers adrodd am y rhagolwg o £13.7m o fwch yn y gyllideb ym mis Medi, roedd nifer o newidiadau i bwysau a phwysau ychwanegol wedi arwain at fwch cyllidebol diwygiedig o £13.9m. Byddai effaith y gostyngiad mewn arian yn AEF a gweithrediad cynigion Cam 1 a 2 yn gadael bwlch cyllidebol o £6.7m ar gyfer 2019/20.

Eglurodd y Prif Weithredwr bod yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi cytuno nad oedd cwmpas ar gyfer arbedion effeithlonrwydd mawr pellach y tu hwnt i'r rhai a nodwyd eisoes. Yr unig opsiwn oedd ar gyfer mynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb oedd newidiadau i gyllid Llywodraeth Cymru (LIC) a gosod Treth y Cyngor. Atgyfnerthodd adborth o'r ddwy sesiwn gyda'r gweithlu y pryderon am faint ac effaith y mesurau caledi.

Cyflwynwyd sylwadau drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar annigonolrwydd Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol, yn enwedig ar gyfer Sir y Fflint fel un o'r rhai ar waelod tabl cyllid Cymru. Yng nghyfarfod y Cyngor, byddai gofyn i'r Aelodau gefnogi lansiad ymgyrch #CefnogiGalw a oedd yn cynnwys cyfres o 'alwadau' i gyflawni cyllid tecach ar gyfer cynghorau yng Nghymru. Hyd yn oed pe bai'n cael ei gyflawni'n llawn, gallai'r opsiynau (oddeutu £5.6m ar gyfer Sir y Fflint) arwain at gynnydd o 7% yn Nhreth y Cyngor – ond byddai'n cael ei osod yn erbyn yr angen i gyflwyno cynnydd llawer uwch.

Eglurodd y Cynghorydd Shotton bod y 'galwadau' hyn yn adlewyrchu'r rhai a geisir gan CLILC, gan gynnwys yr angen i gael hyblygrwydd ar gyllid ychwanegol ar gyfer addysg a gofal cymdeithasol i gynorthwyo i ddiwallu pwysau allweddol a bod y cyllid 'canlyniadol' newydd sydd heb ei ddyrannu yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer cynghorau. Tra bo'r trafodaethau yn parhau, roedd angen cefnogaeth ar gyfer ymgyrch Cefnogi Galw er mwyn dylanwadu ar Setliad Terfynol Llywodraeth Leol ar 19 Rhagfyr.

Yn ystod y cyfarfod, derbyniodd y Prif Weithredwr gadarnhad y byddai cyllid gan Lywodraeth y DU i ddiwallu dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer 2019/20 yn cael ei gynnwys yn y Setliad, tra byddai'r swm ychwanegol ar gyfer y flwyddyn bresennol yn cael ei ddsbarthu fel grant penodol.

Cynigodd y Cynghorydd Woolley bod y Pwyllgor yn llwyr gefnogi ymgyrch #CefnogiGalw. Croesawyd hyn gan y Prif Weithredwr a nododd y byddai gwybodaeth bellach am yr ymgyrch yn cael ei chyhoeddi.

Dywedodd y Cynghorydd Jones bod ffigur dangosol o'r fath ar gyfer Treth y Cyngor yn dro cyntaf ar gyfer y Cyngor ac yn arddangos maint yr her ariannol. Atgoffodd y Prif Weithredwr bod cap Treth y Cyngor LIC wedi'i godi a bod y 7%

posibl a nodwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys y 4.5% yn y gyllideb ac roedd yn dibynnu ar amrywiadau yn absenoldeb unrhyw ddatrysiadau eraill. Roedd cynnydd dangosol blynyddol o 3% wedi'i osod gan y Cyngor yn y flwyddyn flaenorol. Dangoswyd cynnydd o 4.5% dangosol ar egwyddor tebyg yn nodi bod yr heriau ariannol yn llawer mwy na'r blynyddoedd blaenorol. Mewn ymateb i sylwadau ar gymhareb nifer y gweithwyr i'r gwariant, eglurwyd nad oedd y ffigyrau a nodwyd mewn adroddiad adolygiad gan gymheiriad anffurfiol blaenorol yn seiliedig ar ddata presennol ac roeddent cyn trosglwyddo rhai gwasanaethau penodol i ADMau.

Dywedodd y Cynghorydd Shotton bod yr holl 'alwadau' yn rhesymol a bod modd eu cyflawni. Croesawodd yr arwyddion bod rhywfaint o symudiad cadarnhaol mewn ymateb i ymgyrch gref a siaradodd am y posibilrwydd o drafodaethau ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn a chyfalaf i gynorthwyo i liniaru pwysau refeniw.

Darparodd y swyddogion eglurhad ar ffigyrau effeithlonrwydd ar gyfer y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, gostyngiadau pwysau costau corfforaethol a phwysau portffolio a buddsoddiadau. Yn ystod y drafodaeth, dywedodd y Prif Weithredwr y gallai sesiwn wybodaeth ar ddeall cyllid pensiwn fod o gymorth i'r Aelodau. Yn dilyn ymholiadau ar effeithlonrwydd costau cludiant, cytunodd y swyddogion y byddant yn darparu ymatebion ar gyfanswm ffigwr o £183,000, gwerth y refeniw prisiau a ragwelir a gedwir gan weithredwyr a hyfywedd Opsiw 2.

Crynhodd Rheolwr Gwasanaethau Democraidd ganlyniad y drafodaeth mewn cyfres o benderfyniadau a gytunwyd gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi cynigion y gyllideb ar gyfer Cam 1 a 2 fel y nodwyd yn eitemau 6-9 ar y rhaglen i'w hargymell i'r Cabinet a'r Cyngor;
- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r argymhellion gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu arall.
- (c) Bod y Pwyllgor yn llwyr gefnogi strategaeth #CefnogiGalw; a
- (d) Bod y Pwyllgor yn derbyn y bydd angen mynd i'r afael â'r cwestiynau ar gostau cludiant y tu allan i'r cyfarfod cyn y gellir llunio ymateb, ac yn nodi y bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni ar anomaleddau cludiant i sefydlu a ellir gwella swm yr arbedion effeithlonrwydd.

57. MONITRO MIS 6 Y GYLLIDEB REFENIW 2018/19 A MONITRO MIS 6 Y RHAGLEN GYFALAF

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar sefyllfa monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA), a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018/19 fel yr oedd ym Mis 6. Byddai'r ddau yn cael eu hystyried gan y Cabinet ar 20 Tachwedd 2018.

Monitro Cyllideb Refeniw

O ran Cronfa'r Cyngor, roedd y diffyg gweithredol wedi gostwng o £0.081miliwn i £0.222miliwn. O ran rhagolwg sefyllfa'r portffolios, roedd cynnydd o £0.122m ar gyfer Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir wedi golygu bod gorwariant yn ystod y flwyddyn yn £1.585m.

Amcangyfrifwyd y byddai 96% o arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

Roedd diweddariad ar risgiau ac effeithiau o bwysau ysgolion yn ogystal â'r hysbysiad y byddai cyllid ychwanegol ar gyfer dyfarniad cyflog athrawon yn cael ei gynnwys fel rhan o'r Setliad.

Rhagwelwyd y byddai'r balans ar Gronfeydd wrth Gefn Arian at Raid yn £7.469m ar ddiwedd y flwyddyn.

Nid oedd newid yn HRA lle y rhagwelwyd y byddai'r gwariant o fewn y flwyddyn yn £0.067m yn is na'r gyllideb, gan adael balans diwedd blwyddyn o £1.165m.

Mewn ymateb i ymholiadau gan y Cynghorydd Jones, rhoddwyd eglurhad ar ddsbarthiad cyfraniad cyllid addysg gan Lywodraeth Cymru drwy fformiwla cyllid ysgolion. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai'r sefyllfa ar adnoddau / gorbenion gorfodi meysydd parcio yn ffurfio rhan o'r adolygiad sy'n cael ei adrodd ym mis Rhagfyr.

O ran yr ymchwiliad cenedlaethol annibynnol i fynd i'r afael â honiadau cam-drin rhywiol plant yn y gorffennol, eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) bod y costau yn ddangosol ar hyn o bryd, yn amodol ar unrhyw geisiadau pellach am wybodaeth. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gladys Healey, rhoddwyd eglurhad ar etifeddiaeth cyfrifoldeb y Cyngor fel awdurdod dilynol.

O ran Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir, eglurwyd bod y gostyngiad i gostau Addysg ac Ieuenctid yn £0.027m yn hytrach na £0.058m.

Rhaglen Gyfalaf

Roedd crynodeb o'r newidiadau i'r rhaglen yn ystod 2018/19 yn nodi cyfanswm cyllideb ddiwygiedig o £70.289m yn bennaf oherwydd newidiadau i broffiliau gwariant a chadarnhau cyllid grant yn ystod y flwyddyn. Crynhowyd y ceisiadau am symiau cario ymlaen gyda chyfanswm o £2.246m yn Nhabl 3.

Roedd sefyllfa gyllidebol gyffredinol am dair blynedd yn dangos diffyg o £8.577m cyn gwireddu derbyniadau cyfalaf ychwanegol a /neu ffynonellau cyllid eraill.

O ran y sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer buddsoddi mewn trefi yn y sir, holodd y Cynghorydd Jones am y dadansoddiad o ardaloedd rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) a nodwyd yn Nhabl 7. Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai gwybodaeth ar ddiffiniad yr ardaloedd hynny yn cael ei darparu.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Cabinet ar gyfer 20 Tachwedd ar Fonitro'r Gyllideb Refeniw 2018/19 (Mis 6) ac yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion eraill i'w cyflwyno i'r Cabinet; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi sefyllfa Rhaglen Gyfalaf 2018/19 (Mis 6) a chadarnhau, ar yr achlysur hwn, nad oes unrhyw faterion i'w cyflwyno gerbron y Cabinet.

58. CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19 – ADRODDIAD MONITRO CANOL BLWYDDYN

Cyflwynodd Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol grynodedb lefel uchel o gynnydd canol blwyddyn ar Gynllun y Cyngor ar gyfer 2017-23 gan ddarparu dadansoddiad o feysydd sy'n tanberfformio sy'n berthnasol i'r Pwyllgor. Gwnaed cynnydd cadarnhaol o ran cyflawni camau gweithredu, mesurau a risgiau ar gyfer dros 80% o'r amcanion.

Oherwydd materion technegol, ni fu modd darparu'r atodiad manwl arferol ac felly trefnwyd adroddiad llawn ar gyfer y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr. Yn dilyn cais a wnaed gan y Cynghorydd Jones yn flaenorol, roedd gwaith ar y gweill i ddatblygu darlun o'r cylch cynllunio ar gyfer cynllunio ariannol, busnes a pherfformiad. Byddai hyn yn cael ei rannu yng nghyfarfod mis Ionawr, ynghyd â'r manylion ar ystod o wybodaeth perfformiad sydd ar gael i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu i'w defnyddio ar gyfer adrodd ar berfformiad.

Cynigodd y Cynghorydd Jones y dylid gohirio ystyried yr eitem ymhellach tan gyfarfod mis Rhagfyr pan fyddai'r adroddiad llawn ar gael. Eiliwyd hyn a chafodd ei gefnogi gan y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

Y dylid gohirio ystyried yr adroddiad tan gyfarfod mis Rhagfyr.

59. ADRODDIAD PERFFORMIAD STRATEGAETH POBL

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Strategaeth Pobl 2016-2019 gyda chrynodeb o'r pum blaenoriaeth strategol allweddol ar gyfer gweddill 2018/19.

Yn ystod 2017/18, gwnaed cynnydd da o ran darparu Strategaeth Prentisiaeth, tuedd ar i lawr ar gyfer lefelau absenoldeb salwch a gwella'r cynnig dysgu a datblygu. Fel un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2018/19, gwnaed gwaith sylweddol i gyflawni model cyflog cyfartal a chynaliadwy.

Wrth groesawu'r adroddiad cadarnhaol, holodd y Cynghorydd Jones am y posibilrwydd o gyflawni'r targed 100% ar gwblhau'r gwerthusiad. Darparodd yr Uwch Reolwr sicrwydd bod lefel uchel o her i Brif Swyddogion i gyflawni hyn, ac er bod rhai portffolios yn agos at gyflawni'r targed, gallai'r gwahaniaeth o ran maint y portffolios amharu ar y ffigyrau.

Cafwyd trafodaeth ar yr awgrym y dylai Prif Swyddogion fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol i egluro'r rhesymau dros beidio â chyflawni'r targed; ymarfer a fabwysiadwyd yn llwyddiannus yn y Pwyllgor Archwilio. Holodd y Cynghorydd Jones a fyddai modd rhoi hyn ar waith erbyn y diweddariad nesaf yng nghyfarfod mis Ionawr.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi adroddiad perfformiad Strategaeth Pobl a'r cynnydd a nodwyd;
- (b) Diolch i'r Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol am ei gwaith ar yr adroddiad; a
- (c) Bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei darparu ym mis Ionawr a bod unrhyw Brif Swyddogion yn bresennol i egluro'r rhesymau os nad yw eu meysydd wedi cyflawni 100%.

60. ADRODDIAD GWYBODAETH AM Y GWEITHLU – CHWARTER 1

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr, Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol adroddiad gwybodaeth am y gweithlu ar gyfer Chwarter 1 2018/19.

Roedd dadansoddiad ac ymarfer meincnodi manwl yn cael ei gyflawni i ddeall y rhesymau dros y gostyngiad mewn ffigyrau presenoldeb. Er y gwnaed cynnydd da ar y gwerthusiadau perfformiad, roedd cyflawni'r targed o 100% yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Adroddwyd gwelliant ar lefel y gwariant ar weithwyr asiantaeth lle bo nifer y lleoliadau presennol wedi gostwng i 52.

Nododd y Cynghorydd Jones bod angen lleihau nifer y gweithwyr asiantaeth hir dymor mewn rolau parhaol. Eglurodd yr Uwch Reolwr bod mwyafrif yr unigolion hynny wedi derbyn cyflogaeth parhaol a bod disgwyl i'r gwasanaethau ryddhau'r rhai heb swyddi parhaol.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r cynnydd yn Adroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu Chwarter 1; a
- (b) Diolch i'r Uwch Reolwr am yr adroddiad.

61. CRONFA WADDOL GYMUNEDOL SIR Y FFLINT – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cyflwynodd Swyddog Gweithredol Busnes a Chyfathrebu Corfforaethol y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a pherfformiad Cronfa Waddol Gymunedol Sir y Fflint (y Gronfa) ers yr adroddiad diwethaf ym mis Ionawr 2017. Cyflwynodd Richard Williams, Prif Weithredwr Sefydliad Cymunedol yng Nghymru (CFIW) a roddodd gyflwyniad ar waith y Gronfa, yn ymwneud â'r canlynol:

- Sefydliad Cymunedol – y wybodaeth ddiweddaraf
- Hanes a Throsolwg o'r Gronfa
- Perfformiad Ariannol y Gronfa
- Crynodeb o ddyfarniadau grant a'r Gronfa ar gyfer 2018/19

- Astudiaethau achos

Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar Gronfa'r Degwm (WCAF) a oedd wedi trosglwyddo i'r CFIW, a sefydlu Cronfa Cymorth Eiddo Penarlâg a'r Rhanbarth. Yn ogystal â'r gwaith partneriaeth da rhwng y Cyngor, y CFIW a phreswylwyr Sir y Fflint, roedd cyfleoedd yn cael eu harchwilio i ddatblygu nifer o bartneriaethau newydd i elwa cymunedau lleol. Adolygir rheolwyr buddsoddi bob tair blynedd er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r nod o gynyddu'r arian a datblygu buddsoddiad yn ddoeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Adroddwyd twf o 6.4% yn y Gronfa dros y 12 mis diwethaf er y nodwyd rhywfaint o risg gwyliadwrus ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. O'r cyfanswm o £25,682 o grantiau sydd ar gael ar gyfer 2018/19, roedd £6,779 wedi'i ddyfarnu hyd yn hyn. Y dull newydd oedd nodi dulliau o gynyddu amrywiaeth a gwneud cysylltiadau cryfach drwy fireinio meini prawf a chynyddu hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth a defnyddio cyllid yn well. Adlewyrchwyd hyn yn rhai o'r straeon a rannwyd o ran y grwpiau oedd wedi elwa.

Mewn ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd David Healey, eglurodd Mr. Williams bod unigolion a grwpiau yn gallu cyflwyno cais am gyllid grant. Cytunodd y byddai'n siarad gyda'r Cynghorydd Healey am yr enghraifft a roddodd. Eglurodd y Swyddog Gweithredol bod ffurflenni gwahanol ar gyfer unigolion a sefydliadau, ac roedd y ddwy ffurflen ar gael ar wefan y Cyngor.

Croesawodd y Cynghorydd Heesom y cynnydd a adroddwyd.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi gwaith y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru ar ran y Cyngor; ac
- (b) Y dylid diolch i Richard Williams, Prif Weithredwr Sefydliad Cymunedol yng Nghymru, am ei bresenoldeb a'i gyfraniad yn y cyfarfod.

62. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.15pm)

.....
Y Cadeirydd